

# Y prif gamau y dylid eu cymryd i greu pyllau ar gyfer bywyd gwylt



PROSIECT 50 MLYNEDD I GREU RHWYDWAITH O BYLLAU DŴR GLÂN AR GYFER BYWYD GWYLLT DŴR CROYW

## Ynglŷn â'r daflen grynhoi hon

Mae'r daflen ffeithiau hon yn crynhoi'r prif gamau y dylid eu cymryd i greu pyllau dŵr glân ar gyfer bywyd gwylt. Mae'r camau hynny'n cynnwys:

- Dylunio pyllau
- Dewis safle a dod o hyd i ffynhonnell o ddŵr glân
- Cynllunio i greu pyllau
- Adeiladu pyllau
- Rheoli pyllau ar ôl eu creu.

Gellir cael gafeael ar wybodaeth fanwl am bob pwnc yn *Nhaflenni Ffeithiau 4 i 8*.

### Beth yw pwll?

Cyrrff dŵr parhaol neu dymhorol yw pyllau, sydd rhwng 1m<sup>2</sup> a 2 hecтар o faint (sef maint oddeutu 2.5 cae pêl-droed).

Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys pyllau dros dro sy'n sychu yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â phyllau bach iawn a phyllau bas iawn megis 'pyllau rhydwy'r'.

## 1. Dylunio pyllau

Mae dylunio pyllau newydd yn hwyl - ceir sawl math gwahanol o bwll, a cheir llawer o nodweddion y gellir eu cynnwys. Er mwyn i safle pwll fod mor werthfawr ag sy'n bosibl o ran bywyd gwylt:

- Crëwch rwydweithiau o byllau neu gyfres o byllau sy'n cynnwys pyllau parhaol a phyllau tymhorol o wahanol ddyfnder ac arwynebedd, yn hytrach nag un corff dŵr.



- Crëwch barthau eang a phantiog yn y manau a fydd yn dod i'r golwg pan fydd lefelau dŵr yn gostwng.
- Sicrhewch fod y rhan fwyaf o lethrau'r pyllau yn rhai graddol (llai nag 1:5).
- Crëwch feisleoedd a barrau tanddwr a fydd yn fuddiol i blanhigion dyfrol.
- Dyluniwch y pyllau yn unol â'r defnydd y byddwch yn ei wneud o'r tir a'r modd y byddwch yn rheoli'r safle (e.e. dôl a gaiff ei phori neu na chaiff ei phori), ac ystyriwch sut y bydd y safle'n datblygu yn y tymor hwy.

- Defnyddiwch waith dylunio i geisio sicrhau y ceir cyn lleied o broblemau ag sy'n bosibl yn y dyfodol - ystyriwch sut y bydd pobl ac anifeiliaid yn defnyddio'r pwll.

Os oes rhywogaethau anghyffredin neu rywogaethau dan warchodaeth yr ydych yn dymuno eu denu i'r safle, dylech gyfeirio hefyd at y *Ffeiliau Rhywogaethau* perthnasol. Yn benodol, ystyriwch sut y gellir defnyddio ffactorau naturiol, megis pwysau pori neu gysgod, i greu'r amodau y mae eu hangen ar y rhywogaeth, er mwyn i'r pyllau fod yn hunangynhaliol heb fod angen eu rheoli'n rheolaidd.

I gael rhagor o wybodaeth a syniadau am waith dylunio, trowch at *Daflen Ffeithiau 4 a'r Gronfa Ddylunio Pyllau*.

## 2. Dewis safle a dod o hyd i ffynhonnell o ddŵr glân

Dewis safle ar gyfer pwll yw'r penderfyniad pwysicaf y byddwch yn ei wneud wrth greu pwll, a bydd yn cael effaith fawr ar ba mor dda y bydd y pwll ar gyfer bywyd gwyllt. Ceir crynodeb o'r prif faterion isod.

### Dŵr glân

Fel y pwysleisir yn aml yn y Pecyn Cymorth Creu Pyllau, mae'n bwysig bod gan byllau ddŵr glân. Er mwyn sicrhau hynny:

(i) Dylech sicrhau na ddefnyddir dulliau amaethu dwys yn nalgylch y pwll. Yn y dalgylch hwn:

1. Dylech chwilio am safle a fydd yn darparu ffynhonnell o ddŵr heb ei lygru i'r pwll. Dewiswch ardaloedd megis glaswelltir garw, coedwig neu rostir.
2. Dylech sicrhau na cheir unrhyw dir â'r neu dir arall lle aflonyddir ar y ddaear yn rheolaidd neu lle mae lefelau maetholion yn debygol o fod yn uchel. Dylech osgoi glaswelltir a gaiff ei amaethu'n ddwys, lle defnyddir gwraith neu blaladdwyr a allai lifo oddi ar y glaswelltir.
3. Dylech osgoi lleoedd sy'n debygol o dderbyn dŵr ffo oddi ar ffyrdd, llwybrau, tai, iardiau neu bentyrtau rwbel ac ati. Mae'r dŵr sy'n rhedeg oddi ar doeon fel rheol yn eithaf glân, ond nid yw'r dŵr sy'n rhedeg oddi ar arwynebau trefol eraill yn lân fel rheol.

(ii) At ei gilydd, dylech osgoi gadael i ddŵr o nentydd, ffosydd neu ddreiniau lifo i mewn i byllau. Ar draws y rhan fwyaf o Brydain, mae dŵr sy'n llifo i mewn i byllau'n cynnwys dŵr wedi'i lygru a silt. Bydd y silt y mae'r dŵr hwn yn ei gludo yn llenwi pyllau'n gyflym iawn, a bydd yn golygu bod eu hoes ddegawdau, os nad canrifoedd weithiau, yn fyrrach nag y dylai fod. Y ffynonellau gorau o ddŵr ar gyfer pyllau fel rheol yw (a) dŵr daear neu (b) ddŵr glaw a dŵr wyneb sy'n draenio i'r pwll o ardaloedd lle na ddefnyddir dulliau amaethu dwys.

(iii) Dylech ystyried yn ofalus cyn lleoli pyllau wrth ymyl llwybrau cyhoeddus neu ardaloedd mynediad agored y mae'r cyhoedd yn rhoi pwysau mawr arnynt (e.e. tiroedd comin, glaswelltiroedd amwynder), neu dylech ddylunio'r pyllau fel y gellir osgoi effeithiau ar fywyd gwyllt.

Os ceir pryderon am ansawdd y dŵr, dylech symud y pwll i leoliad arall neu ddarganfod a ellir gwella ansawdd y dŵr drwy, er enghraifft, ddefnyddio dulliau amaethu llai dwys yn yr ardal y mae dŵr yn draenio ohoni.

Os na ellir cymryd y camau hyn i wella'r sefyllfa, dylech wneud eich gorau glas gyda'r safle a'r ffynonellau dŵr sydd gennych. Efallai na fydd y pwll yn cyfrannu at gyrraedd targedau'r Prosiect Miliwn o Byllau, ond gall pyllau nad ydynt yn 'berffaith' fod yn werthfawr i lawer o rywogaethau dŵr croyw er hynny, a byddant yn ategu'r rhwydwaith dŵr croyw'n gyffredinol.

### Sicrhau y bydd y pwll yn dal dŵr

Yn y rhan fwyaf o achosion, pyllau 'naturiol' heb leinin artiffisial yw'r math gorau o bwll i'w greu. Os nad ydych yn siŵr a fydd pwll ar eich safle'n dal dŵr yn naturiol, neu os ydych yn pryderu am lefelau dŵr, dylech ymchwilio i'r hydroleg a'r ddaearreg leol a chyrrff dŵr eraill sydd yn yr ardal (gweler *Taflen Ffeithiau 10* i gael rhagor o fanylion). Nid oes yn rhaid i byllau ddal dŵr drwy'r flwyddyn: mae pwll tymhorol yn fath pwysig o bwll yn ei rinwedd ei hun. Ac mae ansawdd y dŵr yn bwysicach na'i faint.

### Lleoli pyllau'n strategol

Ar draws y DU yn ei chyfanrwydd, mae'n bwysig bod pyllau dŵr glân yn cael eu gwasgaru a'u cloddio mewn ystod eang o wahanol fathau o dirweddau. Y cymysgedd hwn o leoliadau fydd yn gwarchod yr ystod ehangaf o amrywiaeth o ran dŵr croyw.

Wedi dweud hynny, gall fod yn ddefnyddiol lleoli rhai pyllau newydd mewn modd mwy strategol:

- Dylech gloddio pyllau wrth ymyl gwlyptiroedd eraill i wella cysylltedd - cerrig camu rhwng cyrrff dŵr.
- Dylech gloddio pyllau lle ceir rhywogaethau anghyffredin er mwyn helpu i atgyfnerthu eu poblogaethau.



Neu, efallai y bydd yn bwysig peidio â chloddio o gwbl:

- Peidiwch â chloddio pyllau lle mae cynefinoedd gwerthfawr yn bodoli eisoes.
- Peidiwch â chloddio pyllau lle gallai hynny niweidio rhywogaethau anghyffredin.
- Peidiwch â chloddio mawn, oni bai bod rhesymau da iawn dros wneud hynny.
- Peidiwch â chloddio ein treftadaeth archeolegol.

## Osgoi problemau diweddarach

Os bydd y pwll yn cael ei leoli'n agos i lwybr cyhoeddus neu mewn ardal lle ceir mynediad agored i'r cyhoedd, ystyriwch yn ofalus yr effaith y gallai hynny ei chael ar fywyd gwylt y pwll. Dyma'r prif broblemau, yn nhrefn eu pwysigrwydd yn fras:

- **Hwyaid:** os bydd gormod o hwyaid yn defnyddio'r pwll, bydd hynny'n llygru'r dŵr ac yn ei wneud yn gymylog, ac yn gyffredinol bydd yn lleihau gwerth y pwll o ran bywyd gwylt.
- **Cŵn:** os bydd gormod o gŵn yn neidio i mewn i bwl, bydd hynny'n gwneud y dŵr yn gymylog.
- **Pysgod:** ni ddylai pysgod fod ym mhob pwll. Gall gormod o bysgod neu rywogaethau a gaiff eu cyflwyno, megis pysgod aur, greu llawer o broblemau.
- **Rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid goresgynnol:** yn aml bydd pobl yn ychwanegu'r rhain at byllau yng nghefn gwlad gan achosi problemau i'n bywyd gwylt brodorol.
- **Pobl:** mae pobl eu hunain yn iawn, oni bai bod eu nifer yn golygu bod ardaloedd helaeth o lannau pyllau'n cael eu treulio neu bod sbwriel yn dod yn broblem sylweddol.



Trowch at *Daflen Ffeithiau 5* i gael rhagor o wybodaeth am leoli pyllau ac am ffynonellau o ddŵr glân.

## 3. Cynllunio i greu pyllau

Mae'n werth mynd ati ar ddechrau'r broses i amlinellu sut y byddwch yn cyflawni pob elfen o'r prosiect greu pwll.

### Archwilio'r safle cyn dechrau gweithio

Cymerwch ofal i sicrhau na fydd greu pwll yn achosi niwed neu'n mynd yn groes i ddeddfwriaeth. At ei gilydd, y ffordd fwyaf diogel o greu pwll yw siarad â phob corff cyhoeddus perthnasol a phobl eraill sydd â diddordeb er mwyn sicrhau eu bod yn fodlon â'r hyn yr ydych yn ei wneud. Rhestrir y pwyntiau y dylid eu hystyried isod (mae rhestr o gysylltiadau i'w gweld yn Nhabl 1):

- **Niwed i gynefinoedd a rhywogaethau sy'n bodoli eisoes:** Sicrhewch nad yw'r ardal y byddwch yn cloddio'r pwll ynddi a'r llwybrau sy'n arwain at y safle'n niweidio cynefinoedd neu rywogaethau sy'n werthfawr, sydd dan fygythiad neu sydd dan warchodaeth. Yn aml, caiff pyllau eu cloddio mewn mannau sy'n llaith yn naturiol, felly dylech gymryd gofal arbennig i sicrhau nad ydych yn dinistrio gwlyptiroedd sy'n bodoli eisoes (pantiau llaith, tryddiferiadau, pyllau dros dro a ffynhonnau) (gweler *Taflen Ffeithiau 5*). Os ceir amheuaeth, byddwch yn ofalus: cloddiwch byllau mewn mathau o lystyfiant sy'n helaeth ac yn unfurf.
- **Safleoedd dan warchodaeth:** Os oes safleoedd dan warchodaeth gerllaw (e.e. Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, gwarchodfeydd natur ac ati), sicrhewch na fydd greu pwll yn cael effaith niweidiol ar ffactorau megis systemau draenio neu lefelau dŵr.
- **Archeoleg:** Ymgynghorwch ag Archeolegydd y Sir i ddarganfod a yw'n debygol y bydd nodweddion archeolegol yn bresennol.
- **Creu pyllau ar orlifdiroedd:** Os yw'r safle ar orlifdir, ceir gofyniad cyfreithiol i sicrhau na fydd rwbwl a gaiff ei gloddio: (a) yn lleihau capasiti'r ardal i storio llifddwr, a (b) yn cael ei bentyrru gan rwystro llifddwr rhag symud.

- **Pibellau a gwasanaethau tanddaearol:** Gwiriwch a oes ceblau a phibellau tanddaearol sy'n cario trydan, nwy, olew, dŵr, llinellau ffôn neu garthion yn croesi'r safle.
- **Gwasanaethau uwchben y ddaear:** Gwiriwch a oes llinellau trydan uwchben y ddaear sy'n cyfyngu ar uchder y peiriannau y gellir eu defnyddio ar y safle. Nid oes yn rhaid cyffwrdd â'r llinellau trydan yn uniongyrchol - gall trydan fflachio pan ddaw offer yn agos iddo.
- **Cymdogion:** Os yw'r pyllau'n agos i eiddo gerllaw, ac yn enwedig os yw'r tir lle mae'r pwll yn gorwedd yn cysylltu â system ddraenio cymydog, dylech siarad â'ch cymydog i sicrhau na fydd unrhyw wrthdaro.
- **Caniatâd cynllunio:** Cysylltwch â'r awdurdod cynllunio lleol yn gynnar yn ystod y broses i ddarganfod a oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer y pwll neu a yw'n debygol y bydd pryderon eraill. Os oes angen caniatâd cynllunio arnoch, codir tâl am hynny, a bydd y gost yn dibynnu ar gymhlethdod y prosiect.

**Tabl 1: Archwilio'r safle cyn dechrau gweithio, a phobl y dylech siarad â nhw**

Pwnc	Pwy	Manylion cyswllt
Yr effaith a geir ar rywogaethau dan warchodaeth neu safleoedd dynodedig	Cyngor Cefn Gwlad Cymru neu Natural England	<a href="http://www.ccg.gov.uk">www.ccg.gov.uk</a> <a href="http://www.naturalengland.org.uk">www.naturalengland.org.uk</a>
Gwaith torri coed, bôn docio ac ati	Y Comisiwn Coedwigaeth	<a href="http://www.forestry.gov.uk">www.forestry.gov.uk</a>
Yr effaith a geir ar safleoedd hanesyddol neu weddillion archeolegol	Archeolegydd y Sir	Yn yr Awdurdod Cynllunio Lleol
Gwaith ar orlifdir, effeithiau ar gyrsiau dŵr, pryderon am dir wedi'i halogi, cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol	Asiantaeth yr Amgylchedd	<a href="http://www.environment-agency.gov.uk">www.environment-agency.gov.uk</a> <a href="http://www.netregs.gov.uk">www.netregs.gov.uk</a>
Yr effaith a geir ar eiddo arall, e.e. trwy newid y system ddraenio	Tirfeddianwyr cyfagos	
Lleoli a gweithio wrth ymyl gwasanaethau sydd wedi'u claddu a llinellau trydan uwchben y ddaear	Darparwyr gwasanaethau	Cysylltwch â darparwyr gwasanaethau'n uniongyrchol neu defnyddiwch gyfleuster chwilio megis <a href="http://www.linesearch.org">www.linesearch.org</a> neu <a href="http://www.linewatch.co.uk">www.linewatch.co.uk</a>
Iechyd a diogelwch, asesiadau risg, y Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli)	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	<a href="http://www.hse.gov.uk">www.hse.gov.uk</a>
Gofynion o ran caniatâd cynllunio neu bryderon eraill am ddefnydd tir	Yr Awdurdod Cynllunio Lleol, e.e. cyngor dosbarth neu Awdurdod Parc Cenedlaethol	Cysylltwch â'r awdurdod yn uniongyrchol neu chwiliwch am fanylion cyswllt yr awdurdod perthnasol ar <a href="http://www.planningportal.gov.uk">www.planningportal.gov.uk</a>



## Dulliau o greu pyllau

Gallwch ddewis o blith tri dull, yn dibynnu ar amgylchiadau eich prosiect greu pyllau – mae i bob dull ei rinweddau, yn dibynnu ar leoliad y safle a ffynhonnell y cyllid:

1. **Dull cyflym:** gellir greu pyllau'n gyflym dros gyfnod o oriau neu ddiwrnodau, a gadael i rywogaethau eu cytrefu.
2. **Dull graddol:** os nad ydych yn siŵr ynghylch lefelau dŵr terfynol y pyllau, dylech ystyried gweithredu'n raddol gan gloddio pyllau dyfnach yn ystod y flwyddyn gyntaf a chael gwared ar yr holl rwbel. Yna, ym mlwyddyn 2 neu 3, dylech fireinio'r glandir a'r parth a fydd yn dod i'r golwg pan fydd lefelau dŵr yn gostwng.
3. **Dull tymor hir:** dylech gynllunio i gloddio pyllau dros gyfnod hwy, gan ddod â pheiriant codi baw i mewn bob rhyw ychydig o flynyddoedd i greu pyllau newydd ac efallai addasu'r pyllau sy'n bodoli eisoes.



## Cynllunio'r cam adeiladu

Dyma'r pwyntiau pwysig y dylid eu hystyried:

- **Amseru'r gwaith:** Nid oes cyfnod delfrydol i greu pwll. Gall fod yn syniad da osgoi'r gaeaf os yw'r pridd yn debygol o fod yn llawn dŵr, yn enwedig os oes angen defnyddio cerbydau dadlwytho i symud rwbel. Gallai fod cyfyngiadau hefyd yn gysylltiedig â rhywogaethau sy'n bridio neu rywogaethau sydd dan warchodaeth.
- **Mynediad i beiriannau:** Mae peiriannau cloddio a cherbydau dadlwytho yn beiriannau tal, llydan sy'n aml yn drwm. Felly, dylech sicrhau bod pob llwybr, pont a gât yn ddigon mawr ar eu cyfer - efallai y bydd angen cryfhau llwybrau mynediad a thocio neu symud prysgwydd, coed neu wrychoedd sydd ar eu hymylon. Mae'n bosibl y bydd angen strwythurau dros dro er mwyn cyrraedd rhai ardaloedd ar y safle (e.e. pontydd dros dro i fynd dros ffosydd). Os oes ardaloedd sensitif ar y safle dylid eu marcio ar gynlluniau, ac yn ddefnyddol dylid gosod tâp o'u hamgylch ar y ddaear.
- **Ymdrin â rwbel:** Yn aml, cael gwared ar y rwbel a gloddiwyd yw rhan ddrutaf a mwyaf llafurus prosiect greu pwll! Er mwyn lleihau costau gymaint ag sy'n bosibl, dylech ystyried sut y gallech ddefnyddio'r rwbel ar y safle, naill ai trwy ei wasgaru'n denau neu greu nodweddion sy'n ddefnyddiol i fywyd gwylt, neu'i ddefnyddio i atal dŵr wedi'i lygru rhag mynd i mewn i'r pwll. Os caiff y rwbel ei wasgaru, sicrhewch na fydd yn ffurfio rhimyn o gwmpas y pwll, sy'n ymyrryd â ffynhonnell o ddŵr wyneb glân. Os eir â rwbel oddi ar y safle er mwyn cael gwared arno, mae'n bosibl y bydd angen caniatâd cynllunio ar y prosiect greu pwll.
- **Ymdrin â phridd uchaf:** Mae pridd uchaf yn cynnwys lefelau uchel iawn o faetholion, a gall lygru dŵr pwll. Ni ddylid defnyddio pridd uchaf yn y pwll, ar ei mylon, ar y glannau uchaf nac yn unrhyw fan lle gallai dŵr wyneb olchi maetholion i mewn i'r pwll. Os na ellir defnyddio'r pridd uchaf ar y safle, dylech ystyried ei werthu.

## Gwaith dylunio a darluniau

Y prif resymau dros greu darluniau o safleoedd yw (i) er mwyn rhoi trefn ar eich syniadau, a (ii) er mwyn cyflwyno eich syniadau i eraill: pobl a allai gynnwys swyddogion cynllunio, contractwyr, gyrrwyr peiriannau codi baw neu gyllidwyr.

Yn aml, bydd darluniau o safleoedd yn dechrau fel braslun ar gefn amlen, ac weithiau efallai na fydd arnoch angen llawer mwy. Fodd bynnag, os byddwch yn cyfleu eich syniadau i eraill, dylech gynnwys yr hyn y bydd angen iddynt ei wybod.

Trowch at *Dallen Ffeithiau 6* a'r enghreifftiau yn y *Gronfa Ddylunio*.

## Costau'r prosiect a ffynonellau cyllid

Bydd cost eich prosiect yn amrywio'n eang, yn dibynnu ar ei natur. Gall gwirfoddolwyr gloddio pyllau bach â llaw, neu gellir eu cloddio drwy ddefnyddio peiriant codi baw bach y gallwch ei yrru eich hun am ddiwrnod. Mae'n bosibl y bydd prosiectau mwy cymhleth a mwy o faint yn costio miloedd o bunnoedd. Gall leinio pwll ddyblu ei gost yn hawdd, oherwydd y gwaith cloddio, y deunyddiau, yr offer a'r amser ychwanegol a fydd yn angenrheidiol.

Mae'n ddefnyddiol cynnwys cronfa wrth gefn, sef tua 10% o gost y prosiect fel rheol neu 5% ar gyfer cynlluniau mwy o faint, i dalu am gostau annisgwyl a chynnydd mewn prisiau.

Bydd rhestr o ffynonellau cyllid posibl ar gyfer creu pyllau'n rhan o'r Prosiect Miliwn o Byllau yn cael ei diweddarau'n rheolaidd ar *wefan y prosiect*.

## Iechyd a diogelwch

Wrth wneud gwaith ymarferol ar byllau, y mater cyntaf y dylid ei ystyried yw sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflawni'n ddiogel. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i bob cwmni gynnal asesiadau risg, a gallai fod yn un o amodau polisïau yswiriant. Yn ogystal, dylid asesu iechyd a diogelwch ar ôl gorffen creu'r pyllau, yn enwedig mewn manau lle ceir mynediad i'r cyhoedd.



Dylid nodi bod materion ac asesiadau'n ymwneud ag iechyd a diogelwch yn rhai sy'n benodol bob amser i'r safle a'r prosiect dan sylw. Ceir canllawiau syml ynghylch dull synhwyrol o reoli risg a chynnal asesiadau risg ar wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar [www.hse.gov.uk/risk/index.htm](http://www.hse.gov.uk/risk/index.htm)

Os bydd prosiect creu pyllau yn perthyn i'r categori 'prosiect adeiladu', bydd y Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) yn berthnasol (gweler [www.hse.gov.uk](http://www.hse.gov.uk)) - mae'n arfer da dilyn y Rheoliadau hyn ar gyfer pob prosiect.

Os bydd y gwaith adeiladu'n para mwy na 30 diwrnod neu'n cynnwys dros 500 diwrnod person o waith adeiladu, ceir gofynion cyfreithiol ychwanegol. Dylid cwblhau ffurflen hysbysu a'i hanfon i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (gweler Tabl 1), rhaid penodi cydlynnydd Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) a phrif gontractwr, rhaid bod cynllun iechyd a diogelwch ar waith, a rhaid cadw ffeil iechyd a diogelwch fel cofnod o

wybodaeth berthnasol am iechyd a diogelwch ac fel adnodd y gellir cyfeirio ato wrth wneud gwaith yn y dyfodol neu waith cynnal a chadw ar safle'r pwll.

## Rheoli risgiau'r prosiect

Ceir risgiau posibl i lwyddiant unrhyw brosiect, a byddant yn wahanol ar gyfer pob safle a phob prosiect (e.e. methu â chael cyllid, tywydd gwael yn golygu nad oes modd defnyddio llwybrau i'r safle, dod o hyd i ddreiniau nad oeddech yn gwybod eu bod yno). Dylech lunio rhestr o'r materion a allai beri risg i'ch prosiect, a chymryd camau i leihau lefel y risg. Ceir rhagor o wybodaeth am risgiau posibl ar *wefan y prosiect*.

## Dod o hyd i gontractwyr

Os byddwch yn defnyddio contractwyr ar gyfer y cam cloddio, ceisiwch gysylltu â chwmnïau sydd â phrofiad o gloddio pyllau ac sy'n fedrus yn y maes. Cam cyntaf arferol fyddai paratoi cynllun a briff ysgrifenedig ar gyfer y gwaith y mae angen ei wneud, a chael dyfynbrisiau gan oddeutu tri chontractwr. Gall fod yn ddefnyddiol i chi a'r contractwr ymweld â'r safle gyda'ch gilydd. Sicrhewch eich bod yn rhoi gwybod i'ch contractwyr am unrhyw beryglon posibl i staff neu beiriannau, e.e. llethrau serth, ardaloedd meddal neu ansefydlog, dŵr dwfn a llinellau trydan.

Dylech gadarnhau cyfrifoldebau gyda'r contractwr cyn cytuno ar gontract. Dylech gymryd gofal arbennig i sicrhau na fyddwch yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod os bydd peiriannau'n mynd yn sownd neu'n cael eu difrodi.

Trowch at *Daflen Ffeithiau 6* i gael rhagor o wybodaeth am gynllunio prosiectau creu pyllau.



## 4. Adeiladu pyllau

### • Rheoli'r camau adeiladu:

- Cyn i waith ddechrau ar y safle, dylech farcio'r ardaloedd pwysig megis amlinell y pwll, y manau lle gall peiriannau trwm deithio, y manau lle dylid gosod rwbél, neu ardaloedd na ddylid mynd ar eu cyfyl.



- Dylech ddarparu cynlluniau safle manwl, wedi eu lamineiddio efallai fel y gellir eu cadw yng nhab y peiriant codi baw er mwyn i'r gweithwyr allu cyfeirio atynt yn hawdd.

- Dylech dreulio amser gyda gyrrwr y peiriant cloddio cyn dechrau ar y gwaith cloddio er mwyn esbonio'r cynllun, a dylech aros am o leiaf yr ychydig oriau cyntaf i sicrhau bod popeth yn mynd yn iawn. Dylech gofio nad oes gan lawer o gontractwyr brofiad o greu pyllau bywyd gwylt. Dylech ymweld â'r safle'n rheolaidd i wirio cynnydd ac addasu'r cynllun neu ymdrin â phroblemau fel y bo angen.

- Ar ôl cwblhau'r prosiect, dylech wirio eich bod yn fodlon â phopeth sydd wedi'i wneud a bod y safle wedi'i adael mewn cyflwr da, cyn cytuno bod y gwaith wedi'i orffen – gwiriwch y contract ac unrhyw amodau trwyddedau neu ganiatadau.

- **Peiriannau cloddio:** Mae ystod eang o beiriannau ar gael. Gellir hurio peiriannau codi baw bach y gallwch eu gyrru eich hun am ddiwrnod neu wythnos ar y tro gan lawer o gyflenwyr. Fel arfer, caiff peiriannau cloddio mwy o faint sydd â thraciau eu hurio gyda gyrrwr trwyddedig. Mae'n bosibl cloddio pyllau bas iawn, tebyg i byllau adar hirgoes, â tharw dur os oes peiriant o'r fath ar gael ar y safle. Os oes angen symud rwbél o gwmpas y safle, bydd angen defnyddio un neu ragor o gerbydau dadlwytho.

- **Dull cloddio:** Gellir defnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau i gloddio'r pwll, yn dibynnu ar ei faint a'i leoliad, y mathau o bridd a geir yno, lefelau'r dŵr daear a'r mathau o beiriannau a ddefnyddir. Dylech drafod y strategaeth orau gyda'r contractwr. Gellir datrys y rhan fwyaf o broblemau trwy ddod â pheiriant codi baw yn ôl i'r safle am tua hanner diwrnod flwyddyn ar ôl creu'r pwll, a gall hynny arwain at fanteision ychwanegol hefyd.

### • Ymdrin â rwbél sydd wedi'i gloddio:

- Os oes angen symud rwbél, dylai nifer ddigonol o gerbydau addas fod ar gael i'w gludo fel na fydd gyrrwr y peiriant codi baw yn colli amser.
- Bydd cerbydau dadlwytho sy'n cario llawer o rwbél yn suddo'n ddwfn i mewn i briddoedd llaith, felly sicrhewch fod lle iddynt amrywio eu llwybr gan osgoi'r manau sensitif a nodwyd yn ystod y cam cynllunio.

- **Pridd uchaf:** Peidiwch ag ychwanegu pridd uchaf at landir y pwll neu at lethrau sydd uwchlaw'r pwll. Bydd maetholion sy'n draenio o'r pridd uchaf i mewn i'r pwll yn llygru'r dŵr. Mae pridd uchaf yn ddiangen beth bynnag, oherwydd bydd planhigion brodorol yn tyfu'n iawn mewn isbridd, clai neu dywod, a bydd y canlyniad yn y pen draw yn well.

- **Cwblhau'r gwaith ar safleoedd:** Dylech sicrhau bod y contractwr yn gadael y safle ac unrhyw lwybrau mynediad mewn cyflwr da, ond peidiwch â thacluso'r ardal gloddio'n ormodol. Bydd yr arwynebau garw a adawyd gan fwcedi cloddio danheddog, y tomenni isel o bridd a ddadlwythwyd neu a ollyngwyd, y tyweirch sydd wedi eu crafu a'r rhychau olwynion i gyd yn ychwanegu at amrywiaeth strwythurol y safle ar lefel ficro i blanhigion ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn.

- **Cadw cofnod o waith adeiladu'r pwll:** Cadwch gofnod o'r modd yr adeiladwyd y pwll – gall fod yn ddefnyddiol ar gyfer rheoli'r safle yn y dyfodol a gall helpu eraill i ddysgu o'ch profiad chi.

Trowch at *Daflen Ffeithiau 7* i gael rhagor o wybodaeth am adeiladu pyllau.

## 5. Rheoli pyllau ar ôl eu creu

Un o fanteision pwll dŵr glân yw'r ffaith mai ychydig o waith rheoli y dylai fod arno ei angen ar ôl iddo gael ei greu. Gorau po leiaf o bethau a gaiff eu hychwanegu at y pwll, er y gall rhai mân newidiadau fod yn ddefnyddiol weithiau yn ystod y blynyddoedd cyntaf. Dyma'r prif faterion:

**Peidiwch â phlannu planhigion:** mae'r cyfnod pan fydd pwll yn bwl newydd yn fyr iawn o'i gymharu â'i oes gyfan. Bydd llawer o rywogaethau pyllau'n defnyddio'r cyfnod cynnar hwn mewn olyniaeth – ac mae'n gyfnod byr iawn fel rheol. Mae'n bwysig peidio â'i fyrhau ymhellach trwy ychwanegu planhigion neu fwcad o slwtsh o safle arall i helpu'r pwll i 'aeddffedu' yn gynt.

**Cadwch lygad ar y pwll yn ystod y cyfnodau cynnar:** mae'n bosibl y bydd angen gwneud ychydig o ymdrech 2-5 mlynedd ar ôl creu'r pwll tra bydd planhigion wrthi'n ei gytefu, er mwyn sicrhau na fydd rhywogaethau goresgynnol megis cynffon y gath a phlanhigion estron yn drech na phopeth arall ar y safle newydd.

**Ffens dros dro:** os yw'n debygol y bydd llawer iawn o adar dŵr, da byw neu bobl yn defnyddio'r safle, gall fod yn ddefnyddiol gwarchod llystyfiant â ffens dros dro weithiau. Fodd bynnag, ni fydd angen gwneud hynny fel rheol oni bai bod cryn dipyn o silt yn erydu i mewn i'r pwll o'r ddaear foel.

**Rheoli yn ystod y blynyddoedd wedyn:** prin iawn yw'r gwaith rheoli y dylai fod angen ei wneud yn ystod y blynyddoedd wedyn yng nghyswllt pyllau dŵr glân sydd wedi'u dylunio'n dda. Mae'n bosibl y bydd angen rheoli pyllau yn yr amgylchiadau canlynol:

- 1) Os bydd y defnydd a wneir o dir y safle neu os bydd y modd y caiff y safle ei reoli wedi newid (e.e. ceir llai o bori, felly mae llystyfiant coediog wedi datblygu). Mewn achosion o'r fath ceir dau brif ddewis: (a) rheoli'r safle'n achlysurol mewn modd artiffisial i'w gadw mewn cyflwr tebyg i'w gyflwr gwreiddiol (e.e. trwy reoli coed, cael gwared ar llystyfiant neu greu pyllau newydd), neu (b) gadael i'r safle ddatblygu yn ei ffordd ei hun. Cyhyd â bod gan y safle amrywiaeth o byllau o wahanol ddyfnder ac arwynebedd, mae'n debygol y bydd y safle'n gyffredinol yn parhau'n amrywiol ac yn werthfawr.
- 2) Os caiff y safle ei reoli ar gyfer rhywogaethau anghyffredin sydd â gofynion penodol o ran cynefin (megis y fadfall ddŵr gribog, neu un o'r llu o blanhigion prin daear foel).

Pan fyddwch yn rheoli pwll ar gyfer rhywogaethau penodol, dylech ystyried dwysedd y pyllau: wrth i nifer y pyllau gynyddu, gellir lleihau'r angen yn aml i ficoreoli pyllau unigol, oherwydd bydd amrywiaeth cynhenid y pyllau yn gwarchod rhywogaethau ar raddfa'r dirwedd.

Trowch at *Daflen Ffeithiau 8* i gael rhagor o wybodaeth am reoli pyllau ar ôl eu creu.

**I gael rhagor o wybodaeth am y Prosiect Miliwn o Byllau, ewch i [www.pondconservation.org.uk/millionponds](http://www.pondconservation.org.uk/millionponds) neu anfonwch eich ymholiadau mewn neges e-bost i [info@pondconservation.org.uk](mailto:info@pondconservation.org.uk)**